Adroddiad ar

Stepping Stones Magor

Ysgol Gynradd Magwyr
Teras y Sycamorwydden
Magwyr
NP26 3EG

Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Stepping Stones Magor

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Stepping Stones Magor |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Stepping Stones Magor Limited |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Stephanie Saunders, Zoe Ross |
| Person â gofal | Stephanie Saunders, Zoe Ross, Kathryn Ambrose |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 24 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:00am a 3:15pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Yr arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/10/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Gwneud defnydd mwy effeithiol o arsylwadau ac asesiadau i gynllunio’r camau nesaf yn nysgu’r plant.

A2. Parhau i gryfhau prosesau monitro a hunanwerthuso i nodi effaith y ddarpariaeth ar ddatblygiad plant yn glir.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf mewn gwneud penderfyniadau yn annibynnol sy'n dylanwadu ar brofiadau bob dydd. Maent yn symud rhwng ardaloedd yn rhwydd, gan gludo teganau ac adnoddau i gefnogi eu chwarae. Pan fydd y drysau ar agor, gall plant ddewis rhwng mannau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn gwneud hynny'n awchus, gan ymgysylltu â'r ystod eang o adnoddau a gweithgareddau ysgogol a gynigir. Mae plant yn mynegi eu barn yn hyderus gan wybod y bydd eu diddordebau a'u dewisiadau yn cael eu hystyried ym mhob agwedd ar eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant yn eithriadol o hapus ac wedi setlo. Maent yn ymdopi â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr yn dda, gan fwynhau eu hamser yn y lleoliad yn fawr. Mae bron pob un o'r plant yn ffurfio ymlyniadau emosiynol cryf ac ymddiriedus gyda'r tîm bach o ymarferwyr y maent yn eithriadol o gyfarwydd â nhw. Maent yn barod i fynd at ymarferwyr, gan gyfathrebu â nhw mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n briodol i'w cyfnod datblygu. Maent yn gwahodd ymarferwyr i chwarae yn awchus ac yn troi atynt i gael cymorth, cysur neu sicrwydd pryd bynnag y bydd eisiau hyn arnynt. Er enghraifft, mae plant yn gwneud ystumiau pan fydd angen cymorth arnynt â gweithio camera digidol. Mae plant eraill wrth eu bodd pan fydd ymarferwr yn ymateb i'w gwahoddiad i fynd i lawr ar y llawr a chwarae. Maent yn dangos trwy eu hymarweddiad eu bod yn hyderus y bydd ymarferwyr bob amser yn dangos diddordeb ac yn ymateb. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd ag arferion a disgwyliadau yn y lleoliad, gan ychwanegu at eu hymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, maent yn mynd yn awchus at yr ardaloedd sinc i olchi eu dwylo i baratoi ar gyfer byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn chwarae'n fodlon ochr yn ochr â'i gilydd ac yn dechrau cydweithio a rhannu adnoddau yn dda. Er enghraifft, mae plant yn cydweithio'n hapus â'i gilydd wrth iddynt adeiladu gyda theils magnetig, ac yn gwneud lle i blentyn arall ymuno â nhw wrth wrando ar stori. Mae llawer o blant yn dechrau ystyried anghenion plant eraill yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgysylltu'n dda yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn llwyr fwynhau gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a chyfleoedd i arwain eu chwarae eu hunain. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau amser cynaledig ar eu diddordebau eu hunain yn yr awyr agored ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau dawnsio wedi'u harwain gan oedolion.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos lefel gynyddol o annibyniaeth yn y lleoliad ac yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'r medrau hyn ymhellach. Er enghraifft, mae llawer o blant yn tynnu eu cotiau oddi amdanynt ac yn eu hongian ar begiau heb anogaeth.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant 3 neu 4 oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i adrodd arnynt heb allu adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am faterion diogelu ac yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn ddiwyd. Mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn gywir, ac yn rhannu'r wybodaeth hon â rhieni yn brydlon. Mae arweinwyr yn monitro'r cofnodion hyn i nodi patrymau a thueddiadau ac yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ag unrhyw faterion fel maent yn codi. Mae ymarferwyr yn wyliadwrus ac yn sylwgar wrth ofalu am blant i sicrhau bod amseroedd byrbryd a phrydau bwyd yn ddymunol, yn hamddenol, yn gymdeithasol ac yn ddiogel. Maent yn wybodus iawn am anghenion iechyd unigol plant ac yn gydwybodol wrth ddilyn gweithdrefnau diogel i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gan gynnig dewis o fyrbrydau iach ac yn sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan mewn profiadau chwarae yn yr awyr agored bob dydd. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, sy'n helpu plant i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol. Maent yn eithriadol o garedig, pwyllog ac amyneddgar. Maent yn dangos cynhesrwydd, hiwmor a phositifrwydd wrth ryngweithio â phlant, ac maent yn ymatebol iawn i ymdrechion plant i gyfathrebu. Mae ymarferwyr yn rhagorol yn y ffordd y maent yn rheoli a chefnogi ymddygiad plant. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth reolaidd yn effeithiol ac yn defnyddio ymadroddion cadarnhaol i annog yr ymddygiad yr hoffent ei weld. Maent yn bwyllog, yn galonogol ac yn feddylgar yn y ffordd y maent yn cynorthwyo plant i ddatrys anghytundebau.

Mae ymarferwyr yn hynod anogol, sensitif ac effro i anghenion plant yn eu gofal. Mae pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn gyflym. Mae ymarferwyr yn hynod fedrus yn y ffordd y maent yn cynorthwyo plant sydd efallai ag anghenion dysgu ychwanegol cydnabyddedig neu rai sy'n dod i'r amlwg. Maent yn graff a thrylwyr iawn, gan sicrhau bod plant yn cael cymorth effeithiol, yn ôl yr angen. Maent yn defnyddio byrddau cyfathrebu a chymhorthion gweledol i helpu plant i gyfathrebu a chymryd rhan yn llawn. Maent yn dilyn cyngor proffesiynol ac yn rhagweithiol wrth ddod o hyd i ffyrdd i gynorthwyo plant, gan sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn dilyn dull cyson gyda phob plentyn. Mae'r dull hwn yn sicrhau darpariaeth gref a chyson ac

ymrwymiad cadarn i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y plant yn eu gofal. Maent yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd gan rannu gwybodaeth werthfawr fel gweithwyr allweddol. Maent yn gweithio'n agos â rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth rhagorol ar gyfer y plant yn y lleoliad.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn defnyddio'u dealltwriaeth o ddatblygiad plant i gynllunio ystod eang o brofiadau dysgu difyr a dilys. Mae ymarferwyr yn ymatebol i ddiddordebau a chyfareddau plant, yn aml yn cynllunio gweithgareddau yn y fan a'r lle, ac yn addasu darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol. Mae arferion dyddiol yn hyblyg ac yn caniatáu digonedd o amser i blant chwarae a dilyn eu diddordebau.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysgogol gydag ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel a phenagored a gaiff eu dewis i adlewyrchu diddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a rhai sy'n cael eu harwain gan blant, gan alluogi plant i wneud dewisiadau am eu dysgu. Er enghraifft, rhoddir yr opsiwn i blant ymuno â gweithgareddau grŵp neu barhau â'r chwarae o'u dewis nhw. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant wedi ymgysylltu ac wedi'u cymell yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith yn dda ac yn cyflwyno ystod gyfoethog o eirfa yn ystod gweithgareddau. Maent yn defnyddio cwestiynau penagored i annog plant i feddwl ac esbonio'u syniadau. Mae ymarferwyr yn integreiddio medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn arferion a chwarae bob dydd, fel modelu cyfrif yn ystod gemau ac annog plant i ddefnyddio camerâu digidol a thortshis. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r Gymraeg mewn arferion bob dydd, sy'n cynorthwyo plant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hyder yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml.

Mae ymarferwyr yn cydnabod chwarae plant, ac yn ymateb iddo, gan addasu adnoddau a gweithgareddau i ddyfnhau ymgysylltiad a dysgu.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol ac emosiynol plant yn llwyddiannus. Maent yn meithrin perthnasoedd gwresog ac ymddiriedus, ac yn dangos ymagwedd dyner a sylwgar. Mae ymarferwyr yn modelu cyfathrebu a rhyngweithio parchus, gan helpu plant i deimlo'u bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth i atgyfnerthu disgwyliadau. O ganlyniad, mae plant yn dysgu rhannu, cymryd eu tro a deall da a drwg. Mae ymarferwyr yn defnyddio chwilfrydedd naturiol y plant trwy ddatblygu profiadau sy'n eu hannog i feddwl am y byd o'u cwmpas, a'i werthfawrogi. Maent yn helpu'r plant i dyfu planhigion yn yr ardal awyr agored a sylwi ar y tymhorau'n newid.

Mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau'n addas ac yn defnyddio'r rhain i ddeall diddordebau plant. Maent yn wybodus am sut maent yn cynorthwyo plant i symud ymlaen yn eu dysgu yn gyffredinol, ac yn aml yn ymateb yn y fan a'r lle i anghenion plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'u harsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn dathlu ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant yn effeithiol. Mae plant yn dysgu am draddodiadau Cymru ac yn archwilio'u cymuned leol trwy ymweld â siop gyfagos. Mae ymarferwyr yn dathlu amrywiaeth a chynhwysiant, er enghraifft trwy ddarparu offer diabetes ar gyfer doliau sy'n adlewyrchu profiadau plant yn y lleoliad. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae'r safle yn fodern ac yn cael ei gynnal yn dda. Caiff drysau allanol eu cloi, ac mae ymarferwyr yn caniatáu mynediad awdurdodedig yn unig i'r lleoliad. Maent yn sicrhau bod cofnod o bob ymwelydd yn cael ei gynnal. Mae ymarferwyr yn effro i risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd i nodi a dileu unrhyw risgiau i ddiogelwch plant, lle bo modd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg ar gyfer pob ardal a gweithgaredd ar waith ac yn cael eu dilyn gan ymarferwyr. Mae'r lleoliad yn lân iawn, ac mae arweinwyr yn drefnus ac yn wyliadwrus, gan sicrhau bod safonau glanweithdra a diogelwch yn cael eu cynnal yn gyson.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gynnes, yn groesawgar ac wedi'i addurno mewn ffordd i'w wneud yn ddeniadol i blant. Mae'n darparu amgylchedd effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ystafell wedi'i gosod yn ystyriol i ddarparu amrywiaeth eang o ardaloedd ac adnoddau i symbylu diddordeb plant. Er enghraifft, mae ardal chwarae rôl y cartref yn cynnwys adnoddau deniadol i wahodd plant i chwarae, ac mae cornel gysurus gyda soffa maint plentyn yn cynnig lle tawel i blant edrych ar lyfrau neu ymlacio. Mae'r byrddau a'r cadeiriau yn addas i daldra plant, ac yn darparu lle addas i fwyta byrbryd a chinio. Caiff llawer o deganau eu storio mewn basgedi o faint hylaw, sy'n addas i daldra plant, sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r hyn maent eisiau chwarae ag ef yn rhwydd. Mae toiledau a basnau golchi dwylo yn lân ac yn addas o ran eu nifer, ac mae plant yn eu defnyddio gydag ymarferwr gan eu bod o fewn safle'r ysgol. Mae'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach. Mae safle'r lleoliad o fewn yr ysgol yn cefnogi eu cyfnod pontio ac yn sicrhau bod y broses ar gyfer codi a gollwng plant yn nosbarth meithrin yr ysgol yn syml a dymunol i blant.

Mae'r lleoliad yn cynnwys llawer o adnoddau o ansawdd uchel, sy'n ddiddorol ac yn ddatblygiadol briodol, gan sicrhau bod plant yn cael amrywiaeth dda a dewis da. Ceir

cyfuniad o ddeunyddiau naturiol ac artiffisial gyda llawer o adnoddau pren deniadol. Mae ymarferwyr yn gwirio teganau, offer ac adnoddau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn adolygu'r amgylchedd a'r adnoddau yn rheolaidd ac yn gwneud gwelliannau'n aml. Er enghraifft, ychwanegwyd cuddfan esmwyth a goleuadau tyner i greu ardal dawel ar gyfer plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei deall yn dda a'i rhannu gan ymarferwyr a rhieni. Maent yn angerddol am greu ethos croesawgar a chartrefol lle gall plant ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus mewn amgylchedd cefnogol a chynnes. Mae arweinwyr yn ymroddgar iawn i'w gwaith ac mae'r tîm cyfan yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er budd y plant a'r teuluoedd yn eu gofal. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch a lles. Mae hyn yn arwain at amgylchedd gwaith cadarnhaol, sy'n sicrhau lleoliad hapus ar gyfer plant ac ymarferwyr. Ceir datganiad diben clir, sy'n adlewyrchu'r ddarpariaeth yn gywir.

Mae arweinwyr yn bobl hawdd mynd atynt ac yn meithrin ethos cadarnhaol lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwrandewir ar adborth ymarferwyr, a gweithredir arno, sy'n cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a pharch proffesiynol. Mae arweinwyr yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn hynod weladwy yn y lleoliad, gan ymgysylltu â phlant a chefnogi ymarferwyr. Mae gan ymarferwyr gymwysterau priodol a phrofiad gwerthfawr mewn annog lles plant a chefnogi eu dysgu. Mae'r tîm gweithgar a brwdfrydig o ymarferwyr yn falch o fod yn aelodau gwerthfawr o'r gweithlu ac yn angerddol am ddarparu amgylchedd cartrefol ar gyfer y plant. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ymarferwyr fynychu amrywiaeth o hyfforddiant buddiol sy'n canolbwyntio ar agweddau fel cyfathrebu ac arsylwadau. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o ran gwella darpariaeth a diwallu anghenion dysgu plant.

Mae arweinwyr yn nodi cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella yn gywir. Maent wedi dechrau gweithredu newidiadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les plant, er enghraifft cyflwyno ardal synhwyraidd. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid i ymestyn y ddarpariaeth, ac maent wedi ymrwymo i welliant parhaus.

Mae arweinwyr wedi dechrau datblygu prosesau effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a monitro. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r rhain. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd ar hyn o bryd i arweinwyr nodi'n glir effaith eu darpariaeth ar ddatblygiad plant.

Mae arweinwyr yn defnyddio asiantaethau allanol yn effeithiol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol a hwyluso cyfnodau pontio esmwyth i'r ysgol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu a bod

cyfnodau pontio yn cael eu cefnogi'n dda. Mae ymarferwyr yn trefnu i blant fynd ar dripiau o gwmpas yr ardal leol i ehangu eu profiadau dysgu yn ehangach, er enghraifft wrth ymweld â'r siop leol.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi creu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae rhieni'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn weithredol ym mhrofiad eu plentyn. Maent yn meithrin cysylltiadau cryf ac yn rhoi strategaethau pwrpasol ar waith i gryfhau'r partneriaethau hyn ymhellach. Er enghraifft, gwahoddir rhieni i gymryd rhan mewn sesiynau rhyngweithiol, fel adrodd stori yn y goedwig a boreau agored. Mae'r lleoliad yn ymateb yn hyblyg i awgrymiadau gan rieni, gan ddangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2025